**DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /**

**WRITTEN STATEMENTS OF OPINION**

**A GYFLWYNWYD / TABLED ON**

**04.07.01**

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

# OPIN-2001-0034 Anrhydeddu Sylvia Pankhurst a Mudiad y Bleidlais i Ferched/ Honouring Sylvia Pankhurst and the suffrage movement

18 Jun 2001 Raised by Ann Jones

8 Subscribers:

Elin Jones
Janet Ryder
Alison Halford
Dafydd Wigley
Gareth Jones
Tom Middlehurst
Ron Davies
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

*Anrhydeddu Sylvia Pankhurst a Mudiad y Bleidlais i Ferched*

*Mae'r Cynulliad hwn yn nodi bod 20 Mehefin yn ben blwydd y dyddiad pan orfodwyd y Prif Weinidog Rhyddfrydol Herbet Asquith AS, a oedd yn gwrthwynebu rhoi'r bleidlais i ferched, i gwrdd â dirprwyaeth o ferched dosbarth gweithiol o ddwyrain Llundain, yn sgil bygythiad Sylvia Pankhurst o streic newyn a syched am gyfnod amhenodol. Hon oedd yr unig ddirprwyaeth o ferched a dderbyniodd y llywodraeth yn ystod yr ymgyrch am y bleidlais.*

*Mae'r Cynulliad hwn yn talu teyrnged i'r aberth a wnaeth dynion a merched i ennill y bleidlais. Credwn ei bod yn arbennig o bwysig i goffáu'u brwydr heddiw, o ystyried y niferoedd*

*dychrynllyd o isel o bobl a bleidleisiodd mewn etholiadau diweddar yng Nghymru.*

*Honouring Sylvia Pankhurst and the suffrage movement*

*This Assembly notes that June 20th is the anniversary of the date when Liberal PM Herbert Asquith, an opponent of women’s suffrage, was coerced into meeting a delegation of working class women from East London, following Sylvia Pankhurst’s threat of an indefinite hunger and thirst strike. This was the only women’s deputation received by the government during the suffrage campaign.*

*This Assembly pays tribute to the sacrifices that men and women went through to win the vote. We believe it is especially important to commemorate their struggle today, given the alarmingly low levels of turnout in recent elections in Wales.*

## OPIN-2001-0032 Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Clefyd Siwgr/ Diabetes National Service Framework

16 May 2001 Raised by Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

4 Subscribers:

Elin Jones
Janet Ryder
Kirsty Williams
Brian Hancock

*Mae'r Cynulliad hwn yn croesawu'r Llw Clefyd Siwgr a luniwyd gan Diabetes UK, sy'n tynnu sylw at pa mor ddifrifol yw'r clefyd siwgr fel her ym maes iechyd, a'i bod yn bwysig bod*

*- Yr afiechyd yn cael ei ganfod yn gynnar*
*- Y safonau gofal yn gyson*
*- Y gofal yn canolbwyntio ar y cleifion*
*- Digon o adnoddau ar gael ar gyfer gwasanaethau clefyd siwgr*

*Mae'r Cynulliad hwn hefyd yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Clefyd Siwgr. Mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y Fframwaith yn adlewyrchu gwir anghenion pobl sy'n dioddef o'r Clefyd Siwgr, fel y nodir yn y Llw, a hefyd sicrhau bod ymrwymiadau penodol yn cael eu gwneud mewn perthynas ag adnoddau.*

*This Assembly welcomes Diabetes UK's Diabetes Pledge, which highlights the seriousness of diabetes as a health challenge, and the importance of:*
*- Early diagnosis*

*- Consistency of care standards*
*- Patient-centred care*
*- Adequate resources for diabetes services*

*This Assembly also welcomes the Government of Wales commitment to develop a Diabetes National Service Framework. It calls on the Government of Wales to ensure that the Framework reflects the real needs of people with Diabetes, as identified in the Diabetes Pledge, and also to ensure that specific resource commitments are made.*

## OPIN-2001-0031 Opera Genedlaethol Cymru – Cwmni Opera Gorau Prydain/ WNO - The best opera company in Britain

11 May 2001 Raised by Peter Black, Delyth Evans, Jonathan Morgan LLB MSc FRSA, Rhodri Glyn Thomas

2 Subscribers:

Elin Jones
Owen John Thomas MA

*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol:*
*- yn llongyfarch Opera Genedlaethol Cymru ar ennill Gwobr Gerddoriaeth y Royal Philharmonic Society am y trydydd tro yn olynol, rhywbeth na welwyd ei debyg erioed o'r blaen;*
*- yn nodi rhagoriaeth artistig y cwmni hwn o safon fyd-eang a'r cyhoeddusrwydd da a ddaw yn ei sgil i Gymru;*
*- yn gwerthfawrogi'r gwaith sylweddol a wneir gan Opera Genedlaethol Cymru ledled Cymru ym maes addysg ac allgymorth;*
*- o'r farn mai Opera Genedlaethol Cymru yw cwmni opera gorau Prydain.*

*The National Assembly:*
*- congratulates Welsh National Opera on winning an unprecedented third consecutive Royal Philharmonic Society Music Award;*
*- notes the artistic excellence of this world class company and the good publicity it brings to Wales;*
*- values the significant education and outreach work done by WNO throughout Wales.*
*- hails the WNO as Britain's finest opera company.*

## OPIN-2001-0029 Wythnos Ymwybyddiaeth Awtistiaeth/ Autism Awareness Week

09 May 2001 Raised by Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

7 Subscribers:

Elin Jones
Janet Ryder
Kirsty Williams
Rhodri Glyn Thomas
Geraint Davies
Brian Hancock
Owen John Thomas MA

*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn nodi bod tua 27,300 o bobl yng Nghymru ac arnynt anhwylder sbectrwm awtistiaeth sy'n gorfod wynebu oedi hir yn eu diagnosis ac yna gymorth addysgol annigonol a phrinder gwasanaethau cymorth i oedolion. Mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod anghenion pobl ar y sbectrwm awtistig a rhoi canllawiau i awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd ar gydweithio'n effeithiol i hwyluso gwasanaethau cymorth priodol a hybu ymwybyddiaeth; ac mae'n croesawu ymgyrch y Gymdeithas Awtistig Genedlaethol yng Nghymru 'Action for Autism' sy'n tynnu sylw at anghenion pobl ag anhwylder sbectrwm awtistig a'u gofalwyr yng Nghymru.*

*The National Assembly notes, the estimated 27,300 people in Wales with an autism spectrum disorder who currently experience long delays in diagnosis followed by inadequate support in education and few support services as adults and calls on the Government of Wales to recognise the needs of people on the autistic spectrum and to issue guidance to local and health authorities on effective joint working to facilitate appropriate support services and raise awareness; and welcomes the National Autistic Society Wales campaign 'Action for Autism' which highlights the needs of people with an autistic spectrum disorder and their carers in Wales.*

## OPIN-2001-0025 Ceiswyr lloches/ Asylum Seekers

02 May 2001 Raised by Cynog Dafis, Helen Mary Jones

9 Subscribers:

Elin Jones
Phil Williams
Gareth Jones
Brian Hancock
Janet Davies

Janet Ryder
Geraint Davies
Rhodri Glyn Thomas
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn condemnio'r arferiad o gaethiwo ceiswyr lloches diniwed mewn sefyldiadau penyd yng Nghymru neu unrhywle arall yn y byd, ac yn erfyn ar Y Swyddfa Gartref y Deyrnas Gyfunol i newid ei pholisi yn y cyswllt hwn.*

*The National Assembly of Wales condemns the practice of confining innocent asylum seekers to penal institutions in Wales or anywhere else in the world and calls upon the UK Home Office to change its policy on this regard.*

## OPIN-2001-0024 Condemnio'r ffordd y mae George Bush wedi cefnu ar Gytundeb Kyoto/ Condemnation of George Bush's dismissal of the Kyoto Agreement

02 May 2001 Raised by Mick Bates, Richard Edwards, Phil Williams

10 Subscribers:

Elin Jones
Karen Sinclair
Gareth Jones
Owen John Thomas MA
Brian Hancock
Janet Ryder
Helen Mary Jones
Janet Davies
Geraint Davies
Rhodri Glyn Thomas

*Mae'r Cynulliad hwn yn condemnio'r Arlywydd George Bush am ei anwybodaeth o'r materion amgylcheddol sy'n effeithio ar Gymru a'r byd ehangach.*

*Fel prif gynhyrchwr allyriannau sy'n niweidiol i'r amgylchedd, mae'r Cynulliad hwn o'r farn y dylai'r UDA wneud ymdrech bendant i roi'r amgylchedd o flaen busnes mawr, y blaned o flaen budd, trwy ymrwymo i sicrhau mwy o ostyngiad ar allyriannau CO2 na'r lefel a gyhoeddwyd yng nghytundeb Kyoto.*

*This Assembly condemns President George Bush for his ignorance on environmental issues that impact on Wales and the wider World.*

*As the major producer of harmful emissions into the environment, this Assembly believes that the USA should make a concerted effort to put the environment ahead of big business, the planet ahead of profit, by committing itself to cutting CO2 emissions over and above that stated in the Kyoto agreement.*

## OPIN-2001-0018 Llywodraeth yr UD a Kyoto/US Government and Kyoto

04 Apr 2001 Raised by Ron Davies, Richard Edwards, Janice Gregory, John Griffiths LLB, Alun Pugh

6 Subscribers:

Elin Jones
Karen Sinclair
Rosemary Butler
Christine Chapman
Lorraine Barrett
Cynog Dafis

*Mae'r Cynulliad yn cofio'r llifogydd trychinebus yng Nghymru yr hydref diwethaf; yn credu bod angen gweithredu byd-eang er mwyn gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd; ac yn galw ar Lywodraeth yr UD i gyflawni ei dyletswyddau rhyngwladol sy'n deillio o gytundeb Kyoto.*

*The Assembly recalls the disastrous flooding in Wales last autumn; believes global action is required to counteract climatic change and calls upon the US Government to honour its international obligations arising from the Kyoto agreement.*